Taflen Ffeithiau - Atgyweirio Tai

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn ymwneud â chwynion ynghylch Atgyweirio Tai. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r Weithdrefn Gwynion.

Ni allwn ond ystyried cwynion ynghylch ein gwasanaeth atgyweiriadau i denantiaid y Cyngor. Fel landlord rydym yn gyfreithiol gyfrifol am atgyweiriadau neilltuol. Yn ôl y gyfraith rhaid i chi yn gyntaf ddwyn y broblem at ein sylw a hefyd rhaid i chi roi cyfle rhesymol i ni wneud yr atgyweiriadau.

Nodir y gwaith cynnal a chadw y mae'r tenantiaid yn gyfrifol amdano yn y cytundeb tenantiaeth.

Mae'r atgyweiriadau yr ydym ni yn gyfrifol amdanynt yn cynnwys y canlynol:

- strwythur eich cartref a'r tu allan iddo (yn cynnwys y to a'r pibelli);
- y system wresogi (yn cynnwys y boeler a'r cyflenwad dŵr twym);
- y baddon, y gawod, y sinc a'r toiled (yn cynnwys y pibelli cysylltiedig).
- y grisiau neu'r lifft y gallech fod yn eu rhannu gydag eraill (e.e. mewn fflatiau)

Hefyd, rhaid i ni gynnal profion blynyddol ar unrhyw foeler neu gyfarpar nwy a ddarparwyd a rhoi tystysgrif ddiogelwch i chi i ddangos bod hynny wedi cael ei wneud.

Gall y weithdrefn gwynion ystyried:

- a ydym wedi methu â gwneud gwaith atgyweirio yn eich cartref
- yr ydym wedi oedi cyn delio â'ch cais am waith atgyweirio
- a ydym wedi methu â chadw apwyntiadau
- a ydym wedi methu â datrys problem atgyweirio o fewn amser rhesymol yr oeddech wedi ein hysbysu amdani.

Ni all y weithdrefn gwynion:

- delio â chwynion am landlordiaid preifat.
- ein gorfodi i wneud gwelliannau (e.e. gosod unedau newydd yn yr ystafell ymolchi).
- ein gorfodi i wneud atgyweiriadau mwy helaeth nag sydd angen i ddelio â'r broblem.

Materion i'w cadw mewn cof:
Mae eich cytundeb tenantiaeth yn nodi'r pethau penodol eraill yr ydym hefyd wedi cytuno i fod yn gyfrifol amdanynt. Mae ein Canllawiau Gwybodaeth a Safonau Gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth megis amserlenni ar gyfer gwneud atgyweiriadau. Efallai y dymunwch ystyried cysylltu â'r cyrff canlynol i gael cyngor:

Shelter Cymru sy'n darparu cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ynghylch tai. Gallwch gysylltu â hwy drwy ffonio **0845 075 5005** neu drwy gyrchu'r wefan www.sheltercymru.org.uk.

Cyngor ar Bopeth sy'n darparu cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ynghylch amrywiol broblemau (yn cynnwys digartrefedd). Gallwch gysylltu â hwy drwy'r wefan www.citizensadvice.org.uk (a dewis safwe 'Cymru' ar y dudalen ddewisiadau) a nodi eich côd post i gael manylion am eich swyddfa agosaf.